

Newid ysgol



Llawlyfr i rieni a disgyblion.

CYNNWYS

- 10 peth y mae plant yn gofidio amdanynt wrth newid ysgol
- Sut y gallaf helpu fel rhiant?
- Beth sy'n wahanol am ysgol uwchradd?
- Trefniadaeth yr ysgol uwchradd
- Pwy yw pwy?
- Cyrraedd yr ysgol
- Materion gwisg
- Amserlen newydd - bod yn y lle cywir ar yr amser cywir
- Trefnu llyfrau ac offer
- Gwaith cartref
- Cysylltu â'r ysgol - pryd a phwy?
- Problemau y gall plant eu wynebu a beth i'w wneud
- Canllawiau ar gyfer nosweithiau rhieni
- Dyddiadau pwysig yng nghalendr 2017-2018

10 peth y mae plant yn gofidio amdanynt wrth ddechrau mewn ysgol newydd



- Bwlian
- Gwneud ffrindiau
- Mynd ar goll
- Gwaith Cartref
- Methu â gwneud y gwaith
- Cyrraedd yr ysgol
- Anghofio'r llyfrau cywir
- Yn ansicr beth sydd i'w wneud os oes problem
- Dod i adnabod yr athrawon
- Bod mewn trwbwl

Sut y gallaf helpu fel rhiant?



Mae symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn gyffrous ac yn ddigwyddiad pwysig ym mywyd eich plentyn. Mae'n garreg filltir sy'n arwain at weithio'n annibynnol gan ddangos hunan-ddisgyblaeth a threfn.

Disgwylir i blentyn sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd ymdopi gydag amrywiaeth eang o brofiadau newydd sy'n gofyn am sgiliau penodol. Mae angen cefnogaeth ar y plentyn er mwyn datblygu'r sgiliau yma e.e. darllen ac ysgrifennu'n annibynnol, gweithio gydag eraill, datrys problemau ayyb.

Mae'r mwyafrif o rieni yn awyddus i helpu eu plant, i baratoi ar gyfer y newidiadau ac i'w cefnogi i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol.

Mae'r mwyafrif o blant yn poeni am wneud ffrindiau newydd ond ar ôl wythnos neu ddwy mae'r gofidiau yma yn diflannu. Os oes yna broblemau, mae mentoriaid o blith Blwyddyn 9 ar gael ym mhob dosbarth i helpu, yn ogystal ag aelodau staff yr ysgol.

Peidiwch â gwneud gormod dros y plentyn neu fe ddaw i arfer â hyn!

Beth sy'n wahanol am ysgol uwchradd?



- Teithio mwy - gan amlaf ar fws.
- Gwisg ysgol newydd.
- Rheolau newydd.
- Yn lle un athro, mae gan bob disgybl tua 10 athro gwahanol. Rhaid dod i adnabod pawb yn eu tro.
- Adeilad mwy o faint - rhaid iddynt ddod i adnabod ardaloedd gwahanol o fewn yr ysgol gan symud o un wers i'r llall.
- Cyfarwyddo ag amserlen pythefnos a defnyddio llyfr cyswllt i gofnodi gwaith cartref.
- Dod â llyfrau gwahanol i'r ysgol bob dydd i'r pum wers.
- Derbyn gwersi newydd e.e. Ffrangeg, Gwyddoniaeth mewn labordy.
- Dulliau dysgu ac addysgu gwahanol.
- Mwy o annibyniaeth adeg egwyl a chinio.

Yn gyffredinol, disgwylir i ddisgyblion fod yn fwy annibynnol ac yn hunan-gynhaliol gan drefnu eu hunain, sy'n sialens fawr i nifer ohonynt.

Trefniadaeth ysgolion uwchradd



Mewn ysgol gynradd, mae rôl a theitlau'r staff fel arfer yn eithaf syml - mae gennych y Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, nifer o athrawon dosbarth, rhai cynorthwywyr dysgu, ychydig o gynorthwywyr cinio, ysgrifenyddes a gofalwr. Fel arfer mae tipyn o gyswllt anffurfiol ac rydych yn debygol o wybod yn union pwy i siarad â hwy pan bod angen, a bod perthynas agos rhyngddoch chi ac athro/athrawes dysgu eich plentyn.

Mewn cymhariaeth, mae strwythur ysgol uwchradd yn gallu ymddangos yn gymhleth iawn. Mae gan yr ysgol Bennaeth, Diprwy Bennaeth a thri Phennaeth Cynorthwyol, pob un â chyfrifoldeb dros agweddau gwahanol. Mae gan bob athro/athrawes gyfrifoldeb dros faes academaidd (e.e. Cymraeg neu Gerddoriaeth) ac mae gan y mwyafrif gyfrifoldeb ychwanegol am les y disgyblion (y rôl fugeiliol). Bydd yr ysgol wedi ei rhannu i adrannau a chyfadranau e.e Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dyniaethau, Anghenion Arbennig ayyb.

O safbwynt yr ochr fugeiliol, bydd eich plentyn mewn dosbarth cofrestru gyda disgyblion eraill o Flwyddyn 7 a bydd tiwtor yn cael ei ddynodi ar gyfer y grŵp er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros les cyffredinol eich plentyn. Nhw fydd fel arfer yn adnabod eich plentyn orau. Ym Mlwyddyn 7 byddant yn cael llawer o'u gwersi yn y grwpiau hyn (er bydd rhai pynciau yn wahanol). Y Pennaeth Safonau sy'n cymryd cyfrifoldeb dros yr holl ddosbarthiadau cofrestru. Yn gyffredinol, y staff y bydd gennych y mwyaf o gyswllt â hwy yw'r Pennaeth Safonau ac weithiau tiwtor dosbarth eich plentyn.

Aelod arall hefyd y bydd gennych gyswllt â hi, os oes gan eich plentyn anghenion addysgol fydd y Cyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CGADY).

Cysylltu â'r ysgol – Pryd a pwy?



Un peth sy'n anodd yw dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng bod yn rhiant 'gor-gofalus' a gadael i sefyllfaoedd fynd yn rhy bell am i chi ofni ymyrryd.

Mae hyn llawer yn haws os ydych yn holi eich plentyn yn gyson ynglŷn â sut mae pethau yn yr ysgol. Bydd gennych syniad da o sut mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen, a theimladau cyffredinol eich plentyn os ydych yn dilyn y canllawiau yn y llyfr hwn.

Os oes unrhyw agwedd o fywyd ysgol yn achosi pryder parhaol, mae'n well i chi fod yn ofalus ac ymyrryd yn gynnar. Os ydych wedi siarad â'ch plentyn, ceisiwch ei helpu i ddod o hyd i syniadau ar sut i ddatrys y broblem, ac os nad yw'r sefyllfa wedi gwella ar ôl ychydig o wythnosau, yna mae'n amser siarad â'r Pennaeth Safonau.

Am bwy i ofyn amdanynt?

Pennaeth Safonau Blwyddyn 7 – Miss Catrin Hughes

Siaradwch ar y ffôn yn gyntaf, ac esbonio natur eich pryder. Fe fydd hi yn gwneud ymholiadau pellach os bydd angen, a chysylltu â chi gyn gynted â phosib. Cewch gyfle i ddod i'r ysgol am sgwrs bellach os bydd angen.

Pwy yw Pwy?

| | |
|-----------------------------|--|
| Pennaeth | Mr Geoff Evans |
| Dirprwy Bennaeth | Mr Eirian Davies |
| Pennaeth Cynorthwyol | Mr Adam Powell |
| Pennaeth Cynorthwyol | Mr Alun Jones |
| Pennaeth Cynorthwyol | Miss Abigail Davies |
| Uwch Dîm Arwain Estynedig | Miss Rachel Davies Miss Catrin Hughes Mrs Iris Williams |
| Pennaeth Safonau Blwyddyn 7 | Miss Catrin Hughes catrin@strade.sirgar.sch.uk 01554 745100 |
| ALNCO CADY | Miss Rachel Davies |

Tiwtoriaid Blwyddyn 7

| | |
|---------------|-----------------------------------|
| 7 Buddug 1 | Miss Nia Griffith/Mrs Alma Davies |
| 7 Buddug 2 | Mr Matthew Gower |
| 7 Gwenllian 1 | Miss Heledd Thomas |
| 7 Gwenllian 2 | Miss Rachel Williams |
| 7 Madog 1 | Miss Hannah James |
| 7 Madog 2 | Mr Josh Williams |
| 7 Rhodri 1 | Miss Catrina Jones |
| 7 Rhodri 2 | Mrs Heulwen Jones |

Rhif ffôn yr ysgol: 01554745100 Rhif ffacs: 01554745106

Cyfrif trydar yr ysgol: @Ysgol_Strade

Gwefan: www.ysgolystrade.org

E-bost (swyddfa): swyddfa@strade.sirgar.sch.uk

Cyfeiriad:

Ysgol Y Strade,

Heol Sandy

Pwll

Llanelli

Sir Gaerfyrddin

SA15 4DL

Ffonau symudol.



Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn argymhell yn gryf na ddylai disgyblion ddod â ffonau symudol i'r ysgol o gwbl. Does dim angen defnyddio'r ffonau symudol arnyn nhw yn ystod oriau ysgol.

Dyma rai materion difrifol sy'n deillio o ddefnyddio ffonau symudol yn ystod oriau ysgol

- Bwlian
- Defnydd anaddas o luniau/fideos
- Colli eiddo gwerthfawr (nid yw'r ysgol yn gyfrifol am hyn)
- Tanseilio disgyblaeth

Gofynnir yn garedig am eich cefnogaeth gan obeithio eich bod yn sylweddoli bod y rheol hon er lles diogelu eich plant a disgyblaeth yr ysgol.

Bore/Nos



Tasgau i ddisgyblion

- Codi'n brydlon.
- Ymolchi, gwisgo a bod yn barod i adael y tŷ gyda phopeth sydd ei angen.
- Gadael y tŷ yn brydlon i gyrraedd yr arosfan bysiau.
- Bod yn y lle iawn ar yr amser iawn ar ddiwedd y dydd.
- Mynd yn syth adre'.
- Gwybod beth sydd i'w wneud os ydynt yn hwyr am ryw reswm .

Cyngor i Rieni

- Prynu cloc larwm i'ch plentyn!
- Penderfynu gyda'r plentyn pa amser sydd yn rhaid iddo/iddi godi i ddal y bws yn brydlon.
- Cytuno ar drefn i'r boreau.
- Sicrhau bod y plentyn yn paratoi'r bag ysgol y noson cynt.
- Cytuno yn brydlon gwely adeg ysgol i sicrhau digon o gwsg

Gwisg Ysgol




Tasgau i ddisgyblion

- Bod yn ymwybodol o reolau'r ysgol ynglŷn â gwisg (gan gynnwys gemwaith a cholur).
- Dysgu ac ymarfer sut i glymu'r dei!
- Sicrhau bod popeth yn barod y noson cynt.
- Sicrhau gwisg ymarfer corff ar y diwrnodau cywir.

Cyngor i Rieni

- Sicrhau bod y wisg gywir yn cael ei harchebu.
- Rhaid i bob disgybl wisgo'r wisg yn gywir ar bob achlysur. Dim 'trainers' na siwmperi /hwdis lliwgar -siwmpwr ysgol yn unig- dim cardigans!
- Rhoi enw ar bob eitem o wisg.
- Annog eich plentyn i newid o'r wisg ysgol yn syth ar ôl cyrraedd adref a'i hongian i fyny.

Amserlen Ysgol



Tasgau i ddisgyblion

- Gwybod pa wersi sy'n cael eu cynnal ar ddiwrnod penodol.
- Gwybod ble mae'r ystafell ar gyfer pob gwrs.
- Gwybod pwy yw'r athro/athrawes.
- Deall yr amserlen - cofio bod cylch o bythefnos
- Cyrraedd cofrestru a'r gwersi yn brydlon - yn enwedig ar ôl egwyl a chinio

Cyngor i Rieni

- Edrych ar yr amserlen gyda'r plentyn a'i drafod.
- Dod yn gyfarwydd gydag enwau athrawon pwnc eich plentyn.
- Cadw copi o amserlen y plentyn mewn lle amlwg.
- Sicrhau bod eich plentyn yn gwybod pa wythnos ar yr amserlen yw hi -wythnos 1 neu wythnos 2 !

Y Drefn Ddyddiol



Tasgau i ddisgyblion

- Sefydlu system i gadw llyfrau ac offer yn ddiogel
- Dod i wybod pa wersi sydd ar ba ddiwrnod
- Gwybod pa offer sydd ei angen ar gyfer pob gwers (e.e cyfrifiannell, pensiliau lliw)
- Defnyddio'r llyfr cyswllt i nodi Gwaith Cartref a digwyddiadau pwysig
- Dod i'r arfer o drefnu'r bag ysgol bob nos!

Cyngor i Rieni

- Helpu'r plentyn i drefnu man canolog i gadw'r llyfrau'n ddiogel
- Sicrhau bod gan y plentyn ddigon o le i wneud gwaith cartref.
- Sicrhau bod gan y plentyn yr offer angenrheidiol.
- Byddai'n syniad i arddangos copi o amserlen y plentyn mewn llwoliad amlwg yn y tŷ (e.e. ar yr oergell) er mwyn medru helpu'r plentyn i drefnu ei hunan.
- Os oes gan eich plentyn chwaraeon neu ymarfer corff ar ddiwrnod penodol, sicrhewch bod y plentyn yn pacio'r wisg gywir bob tro.
- Os oes gan eich plentyn Dechnoleg Bwyd ar ddiwrnod penodol, cofiwch ofyn i'r plentyn ar ddechrau'r wythnos a oes angen cynhwysion ar gyfer y wers ymarferol.

Gwaith Cartref



Tasgau i ddisgyblion

- Cofnodi pob darn o waith cartref yn fanwl yn y llyfr cyswllt.
- Sicrhau eich bod yn deall sut i ddefnyddio'r llyfr cyswllt – cewch eich dysgu i wneud hyn yn ystod y diwrnodau cyntaf.
- Os nad ydych yn deall y gwaith cartref, cofiwch ofyn i'r athro/athrawes am gymorth.
- Gwnewch eich gwaith cartref yn syth ar ôl cyrraedd adref ar y noson gyntaf.
- Cofiwch fynd â'r gwaith cartref gyda chi i'r wers a'i gyflwyno yn brydlon.
- Gofynnwch am help os nad ydych yn deall beth sydd angen ei wneud.
- Ticiwch y gwaith cartref yn y llyfr cyswllt ar ôl ei gwblhau.
- Cofiwch ofyn i un o'ch rhieni i lofnodi'r llyfr cyswllt pob wythnos.

Cyngor i Rieni

- Cytunwch ar drefn benodol ar gyfer gwneud gwaith cartref.
- Yr amser gorau ar gyfer gwaith cartref yw ar ôl saib byr wedi iddynt gyrraedd adref o'r ysgol.
- Cytunwch gyda'ch plentyn y bydd gwyllo teledu/galwadau ffôn/gweithgareddau eraill yn digwydd ar ôl cwblhau'r gwaith cartref.
- Byddwch yn barod ar y dechrau i roi ychydig o amser i helpu gyda'r gwaith cartref tan bod trefn wedi ei sefydlu.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y drefn y cytunwyd arni.
- Ceisiwch wneud yn siŵr bod y gwaith yn cael ei wneud ar y noson gyntaf i osgoi gorlwytho.
- Cadwch lygad ar yr amser sy'n cael ei dreulio ar y gwaith cartref er mwyn sicrhau bod y plentyn yn gwneud yr hyn a ddylai.
- Rhowch help i'r plentyn os yw'n cael trafferthion, ond peidiwch â gwneud y gwaith ar ei ran/rhan.
- Os yw'r plentyn yn cael trafferthion, anogwch nhw i ofyn am help gan yr athro/athrawes.
- Byddwch yn ymwybodol o'r esgusodion sy'n cael eu rhoi gan y plentyn i osgoi gwneud gwaith cartref.
- Cofiwch lofnodi'r llyfr cyswllt yn wythnosol.

Esgusodion am fethu â gwneud gwaith cartref:-



- Chawsom ni ddim gwaith cartref
- 'Sdim angen i mi ei wneud - fe wnaethom ni fe yn y wers.
- Roedd gennym athro/athrawes gyflenwi.
- 'Sdim angen iddo fod mewn am sbel.
- Gadawes i fe yn yr ysgol.
- Mae fy ffrind wedi benthgfy fy llyfr.
- Mae gan yr athro/athrawes y llyfr.
- Fe wnes i'r dasg ar gyfrifiadur ac mae'r cyfrifiadur yn gwrthod argraffu/anghofiais ei 'safio'/methu cofio enw'r ffeil ar y cyfrifiadur.
- Rwy'n bwriadu ei wneud gyda fy ffrind ar y bws/amser egwyl.
- Mae angen ei wneud yn y llyfrgell – fe wnafe amser cinio fory.
- Rwyf wedi colli fy llyfr cyswllt.

Problemau y gall plant eu wynebu a beth i'w wneud ynglŷn â nhw.



Cweryla gyda ffrindiau.

Mae hwn yn gyffredin wrth i blant ffurfio ffrindiau newydd. Rhowch gyngor, ond peidiwch â gor-ymateb. Mae'r dagrau yn gyffredin ac mae'r mwyafrif o'r anghydweld yn datrys ei hunan heb gymorth oedolion.

Cysylltwch â'r ysgol os yw eich plentyn yn isel ei ysbryd, neu'n mynd i'w gragen/chragen am wythnosau, neu os ydych yn credu bod beth sy'n digwydd yn:-

- Fwriadol
- Barhaol
- Dangos anghydbwysedd mewn pŵer.

Cadwch lygad cyson ar yr hyn mae eich plentyn yn ei wneud ar y cyfrifiadur – mae 'cyber' fwlio ar gynydd, a gall achosi cryn ofid i'r disgybl os yw'n digwydd. Os welwch enghreifftiau o 'cyber' fwlio yn cael ei gyfeirio at eich plentyn drwy'r defnydd o Twitter, Snapchat, Facebook ayyb, argraffwch y dudalen a chysylltwch â'r ysgol yn syth.

Efallai bydd yn rhaid i'r ysgol gysylltu â Swyddog Cyswllt yr Heddlu am hyn, yn ddibynol ar natur y sylwadau.

Mae'r un peth yn wir am ffôn symudol a'r defnydd o neges destun – byddwch yn wylidwrus y gall gael ei gamddefnyddio!

Mae gan yr ysgol Bolisi Atal Bwlian. Os bydd angen, gofynnwch am gopi.



Pryder ynglŷn â gwersi penodol, neu teimlo bod athro yn ‘pigo’ arnynt.

Ceisiwch ddarganfod beth yn union mae eich plentyn yn pryderu yn ei gylch, neu pam nad ydynt yn hoffi athro/athrawes neu bwnc penodol. Os ydyw oherwydd bod y pwnc yn rhy anodd/rhy hawdd, ceisiwch dreulio amser gyda nhw ar y pynciau hynny. Mae’n cymryd amser i athrawon newydd ddarganfod cryfderau/gwendidau unigolion. Cysylltwch â’r ysgol os yw eich plentyn yn parhau i weld y gwaith yn rhy anodd/rhy hawdd ar ôl tua hanner tymor, neu trafodwch hyn yn y noswithiau rhieni.

Os yw eich plentyn yn teimlo bod athro/athrawes yn ‘pigo’ arno, gallai hyn fod oherwydd steil unigol yr athro/athrawes a bod y plentyn yn cymryd hyn yn bersonol. Un o sgiliau bywyd yw cyd-weithio gyda rhywrai nad ydych yn cydweld â hwy ac mae agwedd pragmatig i’w argymhell. Gwnewch yn siŵr bod y gwaith cartref ar gyfer y pwnc yn cael ei wneud mor dda â phosib. Ceisiwch beidio â chwyno wrth yr athro/athrawes penodol o flaen eich plentyn – bydd hyn yn gwneud y broblem yn waeth.

Cysylltwch â Phennaeth Safonau Blwyddyn 7 os yw’r broblem yn parhau. Nid oes angen i’ch plentyn fod yn ymwybodol bod hyn wedi digwydd – bydd sawl un yn cael ei synnu gyda pa mor garedig mae’r athro/athrawes wedi bod.



Colli Eiddo

Mae hyn yn gyffredin iawn gyda plant sydd â phroblemau yn trefnu (ac yn ddrud iawn i'r rhieni). Dilynwch yr awgrymiadau o dan 'Trefnu llyfrau ac offer'. Os nad yw'r sefyllfa wedi gwella ar ôl hanner tymor, cysylltwch â Phennaeth Safonau eich plentyn a gofynnwch am ei g/chefnogaeth – gallant gadw golwg ar adegau allweddol a chefnogi eich plentyn i fod yn annibynnol yn yr ysgol.



Bod mewn trwbwl am beidio â chwblhau gwaith cartref

Mewn sawl ffordd, gwaith cartref sy'n gosod y mwyafrif o ofynion ar ddisgyblion Blwyddyn 7 a'u rhieni. Dilynwch yr awgrymiadau o dan y pennawd 'Gwaith Cartref'.

Os nad yw eich plentyn yn derbyn gwaith cartref dros gyfnod o bum neu chwe wythnos, cysylltwch â'r ysgol ac esboniwch y broblem.

Canllawiau ar gyfer noson rhieni



Byddwch yn derbyn dyddiad noson rhieni Blwyddyn 7 mewn da bryd- mae'n cael ei gynnal yn ystod y tymor cyntaf.

O ganlyniad i'r ffaith bod yna fwy o ddisgyblion a bod gan eich plentyn fwy nag un athro/athrawes, mae nosweithiau rhieni mewn ysgolion uwchradd wedi eu trefnu yn wahanol.

Bydd eich plentyn yn trefnu apwyntiadau gydag athrawon pob pwnc yn y Llyfr Cyswllt.

Mae'r apwyntiadau tua 5-10 munud o hyd. Ceisiwch weld cymaint o'r athrawon â phosibl, yn enwedig os oes gennych faterion yr hoffech holi yn eu cylch. Mae'n syniad da i weld tiwtor eich plentyn ac o bosib y Pennaeth Safonau am mai nhw sy'n gallu rhoi'r trosolwg orau o sut mae'ch plentyn yn ymgartrefu yn yr ysgol yn gyffredinol. Gwnewch nodyn o unrhyw gwestiynau neu bryderon cyn y cyfarfod.

Bydd yr apwyntiadau gyda'r athrawon yn rhoi'r cyfle iddynt ddweud wrthyhych sut mae'ch plentyn yn datblygu mewn pwnc. Cewch gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau neu godi unrhyw bryderon sydd gennych.


Ar y noson, prin yw'r adegau lle bydd apwyntiadau yn brydlon felly byddwch yn barod i aros ychydig.

Mae'n syniad da i'ch plentyn fod gyda chi ar y noson hon - er mwyn iddynt glywed beth sydd gan yr athrawon i'w ddweud ond hefyd i'ch helpu i ddod o hyd i'r athrawon cywir!

Yn olaf, peidiwch â theimlo'n ofnus - bydd pob rhiant newydd yn teimlo'r un fath.



DYDDIADAU PWYSIG I FL 7 2017-2018



| | |
|------------|---|
| Medi 5 | Ysgol yn agor i ddisgyblion BL 7, 12 &13. |
| Medi 6 | Ysgol yn agor i bawb |
| Hydref 30 | Gwyliau hanner tymor (1 wythnos) |
| Tach 6 | Ysgol yn ail-agor i ddisgyblion |
| Tach 20 | Tracio gwaith Bl 7 |
| Tach 22 | HMS |
| Tach 30 | Noson rhieni Bl.7 |
| Rhag 21 | Cyngerdd Nadolig |
| Rhag 22 | Gwyliau Nadolig (2 wythnos) |
| Ion 8 | HMS |
| Ion 9 | Ysgol yn ail-agor i ddisgyblion |
| Chwe 15 | Eisteddfod Ysgol |
| Chwe 19 | Gwyliau hanner tymor (1 wythnos) |
| Chwe 26 | Ysgol yn ail-agor i ddisgyblion |
| Mawrth 30 | Gwyliau Pasg (2 wythnos) |
| Ebrill 16 | HMS |
| Ebrill 17 | Ysgol yn ail-agor i ddisgyblion |
| Ebrill 25 | Profion Cenedlaethol |
| Mai 7 | Ysgol ar gau - Gŵyl Fai |
| Mai 28 | Gwyliau hanner tymor (1 wythnos) |
| Mehefin 4 | Ysgol yn ail-agor i ddisgyblion |
| Mehefin 18 | Arholiadau Bl.7 |
| Gorff 17 | Mabolgampau'r ysgol |
| Gorff 20 | Gwibdaith Bl.7 |
| Gorff 24 | HMS/Diwedd tymor. |